**LC1225**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The National Health Services (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006

Mae’r Rheoliadau yma’n nodi’r fframwaith ar gyfer Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol (PDS). Maen nhw’n rhagnodi’r amodau y mae’n rhaid i gontractiwr eu bodloni cyn bod Bwrdd Iechyd Lleol yn cael gwneud cytundeb PDS gyda’r contractiwr. Mae’r Rheoliadau hefyd yn nodi’r weithdrefn ar gyfer datrys anghydfodau cyn i gytundeb gael ei wneud ac yn rhagnodi’r telerau y mae’n rhaid eu cynnwys mewn Cytundeb PDS.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol gyfle i graffu ar ddrafft cynharach o’r Rheoliadau ac mae pwyntiau a allai fod wedi bod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7(v) wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y drafft cyfredol. Oherwydd hynny, does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7(v).

Er hynny, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau yma o dan Reol Sefydlog 11.7(viii). Mae’r Rheoliadau’n rhan o gyfres o offerynnau statudol sy’n sail i’r gyfundrefn newydd ar gyfer gwasanaethau deintyddol sylfaenol. Aeth y trafodaethau gyda’r Byrddau Iechyd Lleol a’r proffesiwn deintyddol ymlaen yn hirach na’r disgwyl. Gan fod rhaid i’r diwygiadau gael eu rhoi ar waith yng

Nghymru a Lloegr o 1 Ebrill 2006 ymlaen, a chan fod angen cyfle i weld y ddeddfwriaeth er mwyn galluogi deintyddion a'r Byrddau Iechyd Lleol i wneud eu contractau a'u cytundebau newydd yn barod i'w rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2006, mae'r Gweinidog wedi cytuno bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud yn uniaith Saesneg.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 14 Chwefror 2006